wsa: newyddion

Y WSA'n lansio Gwefan Newydd ei Gwedd

Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, ewch i wefan Cymdeithas Chwaraeon Cymru ar ei newydd wedd www.welshsports.org.uk.

Mae'r newidiadau i'r safle'n adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau'r Gymdeithas, fel y'u gosodir yn y Cynllun Strategol, a'i nod o barhau i gael ei chydnabod fel y prif lais annibynnol ar gyfer chwaraeon a hamdden yng Nghymru.

Mae'r wefan 'nawr yn fwy hygyrch a rhyngweithiol, sy'n golygu bod modd dod o hyd i wybodaeth yn haws a chyflymach. Mae'r WSA'n gobeithio y bydd y newidiadau hyn yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol, ac yn eich annog i ymweld â'r wefan a'i defnyddio dro ar ôl tro.

Yn ogystal â rhai newidiadau i olwg y wefan, ychwanegwyd mwy o adrannau, gan gynnwys:

- Adran Cyfarwyddyd a Rheoli
- Tudalen Disgownts
- Adran Llinell Gymorth Gyfreithiol
- Cyhoeddiadau'r WSA
- Tudalen Buddiannau i Aelodau
- Adran Cwestiynau a Ofynnir yn Aml
- Map o'r Safle

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y wefan ar ei newydd wedd cofiwch gysylltu gyda ni ar greta.gueresi–leach@welshsports.org.uk.

Yn parhau ar dudalen 2 ....

Gweithdy Rheoli Risg ar gyfer CLIC

Yn dilyn llwyddiant y gweithdy Rheoli Risg a gynhaliwyd gan y WSA ym mis Mai 2008, bydd y Gymdeithas yn cynnal sesiwn arall yng Ngogledd Cymru ar gyfer cyrff llywodraethu ar ddydd Iau 20fed Tachwedd 2008 ym Mhlas Menai.

Cynlluniwyd y gweithdy er mwyn i gyrff llywodraethu gael dealltwriaeth gyffredinol o'r gwahanol fathau o risg a allai effeithio ar eu CLIC a'r dulliau rheoli risg ddylent eu defnyddio er mwyn rheoli a lleihau'r risgiau hynny.

Ar ôl cwblhau'r gweithdy, gobeithir y bydd pob un sy'n cymryd rhan wedi cynnal proses o reoli risg ar gyfer eu cyrff llywodraethol, ac wedi bodloni gofynion adran rheoli risg proses Hunansicrwydd y Cyngor Chwaraeon.

Rhaid archebu lle ar gyfer y gweithdy hwn ac os hoffech wneud hynny galwch Greta ar 0845 846 0020 neu e–bostiwch greta.gueresi–leach@welshsports.org.uk.

Y System Fewnfudo
Y datblygiadau diweddaraf...gweler tudalen 2

BingoLotto
Cyflwyno'r Cynllun 'Buddy' ... gweler tudalen 4

Newidiadau Deddfwriaethol
Y diweddaraf ar 2008 ... gweler tudalen 3

Hyfforddiant Gogledd Cymru
Cyrsiau newydd sydd ar gael ... gweler tudalen 5

wsa:
serving welsh sport
gwasanaethu chwaraeon cymru

.... Parhad o dudalen 1 (Y WSA'n Lansio Gwefan Newydd ei Gwedd)

Mae'r wefan newydd ei gwedd yn haws i'w defnyddio, gydag adrannau newydd i'ch darparu chi a'ch corff llywodraethu gyda'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Mae'r adrannau newydd yn cynnwys:

Buddiannau i Aelodau

Ydych chi'n gwybod am y buddiannau sydd ar gael i aelodau'r WSA? Ychwanegwyd adran newydd sy'n rhoi gwybodaeth ichi am y cyfan sydd ar gael ar eich cyfer, gan gynnwys cylchlythyrau rheolaidd, disgownts, hyfforddiant, cyngor cyfreithiol, dogfennau cyfarwyddyd a llawer, llawer mwy.



Wyddoch chi? Gall y WSA eich helpu gyda materion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r gyfraith cwmnïau, cyflogaeth, trethi, a llawer mwy …

Cyfarwyddyd a Rheoli

Mae adran newydd dan dudalen gwasanaethau'r wefan yn cynnwys cannoedd o bolisïau a thempledi am ddim a chysylltau ar gyfer Profion Gwrthgyffuriau, CChAC, Amddiffyn Plant, Rheolaeth Gorfforaethol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Cyllid, Adnoddau Dynol, Marchnata a Chyfathrebu, Rheoli Risg, Gwirfoddolwyr a'r Iaith Gymraeg.

Wyddoch chi? Mae templedi cyfarwyddyd, polisïau a dogfennau am ddim ar gael ar eich cyfer ar nifer o bynciau perthnasol …

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Mae'r adran newydd sbon hon o'r wefan yn ateb rhai o'r cwestiynau a ofynnir yn aml gan gyrff llywodraethu a'r cyhoedd yn gyffredinol megis pa fath o gyllid sydd ar gael trwy'r WSA neu sut i ddod yn aelod.

Map o'r Safle

Ychwanegwyd map o'r safle er mwyn dod o hyd i wybodaeth yn sydyn.

Disgownts

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru wedi trafod telerau er mwyn medru cynnig nifer o ddisgownts a buddiannau i'r cyrff llywodraethu cenedlaethol sy'n aelodau o'r Gymdeithas. Ychwanegwyd tudalen i'r wefan yn rhestru'r holl gynigion sydd ar gael i aelodau, gan gynnwys disgownts ar gyfieithu i'r Gymraeg, meddalwedd cyfrifiadurol, llety a chyfleusterau cynadledda ac yswiriant.

Wyddoch chi? Trwy aelodaeth o'r WSA cewch ddisgownts a chynigion arbennig, gan gynnwys gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg, meddalwedd cyfrifiadurol ac yswiriant …

Hyfforddiant i Aelodau

Gwnaed gwelliannau i'r adran hyfforddiant i aelodau ac mae'n cynnwys yr holl raglenni hyfforddi diweddaraf ynghyd â chyfarwyddiadau i ganolfannau hyfforddi.

Cyhoeddiadau

Nawr gellir dod o hyd i'r holl gopïau archif o wsa: newyddion, yr e-gylchlythyr a dogfennau eraill megis cynllun strategol y WSA yn adran Cyhoeddiadau'r wefan.

System Ymfudo Reoledig sy'n Seiliedig ar Bwyntiau a Chod Ymddygiad Haen 2

Mae system fewnfudo sy'n seiliedig ar bwyntiau'n cael ei chyflwyno'n raddol fel dull o reoleiddio mewnfudo i'r Deyrnas Unedig o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae'r cynllun yn cynnwys pum 'haen' fydd yn disodli'r holl drwyddedau gwaith a chynlluniau mynediad blaenorol.

Bydd Haen 2 a 5 o'r system ar gyfer ymgartrefu'n barhaol a dros dro (yn y drefn honno) yn dod yn weithredol ar ddiwedd Tachwedd. Gall sefydliadau chwaraeon wneud cais yn awr i fod yn noddwyr. Mae'r fisa ymwelydd chwaraeon hefyd ar fin dod yn weithredol a bydd hwnnw caniatáu i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau i ddod i'r Deyrnas Unedig am hyd at chwe mis ar y fisa £65.

Bydd y rhai sy'n dod mewn i'r wlad dan Haen 2 angen Cymeradwyaeth Corff Llywodraethu fydd yn cael ei amlygu trwy God Ymddygiad Haen 2. Gosodir y Gymeradwyaeth gan y corff llywodraethu ac mae'n caniatáu i chwaraeon reoleiddio safon y chwaraewyr tramor sy'n dod mewn i'r Deyrnas Unedig.

Mae'r CCPR (Central Council for Physical Recreation) a chymdeithasau chwaraeon wedi annog Asiantaeth Ffiniau'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod y safonau hyn yn eu lle ar gyfer y rhai sy'n dod mewn dros dymor byr dan Haen 5 hefyd.

Bu'r CCPR yn ymgyrchu'n galed i osgoi system fisa gostus a biwrocrataidd ar gyfer pobl chwaraeon sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig o'r tu allan i'r UE. Bydd y CCPR yn parhau i gydweithio gyda'r Swyddfa Gartref, Asiantaeth y Ffiniau, Yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a gwahanol chwaraeon i roi ymreolaeth i'r byd chwaraeon i bennu ansawdd chwaraewyr tramor sy'n arfer eu crefft yn y Deyrnas Unedig.

Newidiadau Deddfwriaethol ar gyfer Hydref 2008

Mae nifer o newidiadau deddfwriaethol yn dod i rym. Mae'r rhain yn cynnwys:

Deddf Cydraddoldeb

Yn ddiweddar cyhoeddodd y Llywodraeth ei chynlluniau ar gyfer y Ddeddf Cydraddoldeb yn ei Phapur Gwyn yn dwyn y teitl 'Framework for a Fairer Future – the Equality Bill.'

Prif bwrpas y Ddeddf yw uno'r ddeddfwriaeth wahaniaethu bresennol yn un Ddeddf, fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi mynd ati i gynnig mentrau eraill sy'n ymwneud ag amrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynyddu eglurder yn y gweithle trwy wneud hi'n ofynnol i gyflogwyr sector cyhoeddus i gyhoeddi data; gwahardd cymalau gagio mewn cytundebau cyflogaeth; ac ymchwilio i arferion cydraddoldeb;
- Cyflwyno pwerau i wneud rheoliadau pellach sy'n gwahardd gwahaniaethu na ellir ei gyfiawnhau ar sail oedran gan y rhai sy'n darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau; a
- Galluogi cyflogwyr i roi ystyriaeth i dan gynrychiolaeth grwpiau dan anfantais wrth ddewis rhwng dau ymgeisydd gyda'r un cymwysterau.

Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol

Mae'r Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol yn cynyddu ar 1 Hydref 2008 fel a ganlyn:

- Graddfa safonol (oedolyn) (gweithwyr 22 oed a throsodd) £ £5.73 (yn codi o £5.52).
- Graddfa ddatblygu (gweithwyr rhwng 18 a 22 oed) – £4.77 (yn codi o £4.60).
- Graddfa gweithwyr ifanc (gweithwyr sydd dan 18 oed ond sydd uwchlaw'r oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn brentisiaid)) £ £3.53 (yn codi o £3.40)

Deddf Cwmnïau

Mae Deddf Cwmnïau 2006 yn cael ei rhoi ar waith fesul cam a bydd ei holl ddarpariaethau wedi dod i rym erbyn 1 Hydref 2009. Mae'n cyflwyno nifer o newidiadau ar gyfer cwmnïau preifat, gan gynnwys cwmnïau newydd a phresennol sy'n elusennau. Mae'r cyhoeddiad diwethaf yn cadarnhau bod nifer o newidiadau i'w gweithredu o hyd ar 1 Hydref 2008, gan gynnwys y canlynol:

- Bydd dyletswyddau Cyfarwyddwyr wedi'u codeiddio;
- Ni fydd angen i gwmnïau preifat gael ysgrifennydd cwmni bellach;
- Cyflwynir cynllun cyffredinol o gyfathrebu electronig a dros y we ar gyfer cwmnïau

Am fwy o wybodaeth ewch i www.companieshouse.gov.uk.

Rheoliadau Absenoldeb Mamolaeth a Rhiant ac Absenoldeb Tadolaeth a Mabwysiadu (Diwygiad) 2008

Bydd gan weithwyr sydd ar fin rhoi genedigaeth neu fabwysiadu ar neu ar ôl 5 Hydref 2008 yr hawl i'r un telerau ac amodau yn ystod absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu ychwanegol â'r rhai mai gweithwyr ar gyfnodau o absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu arferol yn eu derbyn.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008

Mae deddfwriaeth eilaidd i'w gweithredu fydd yn rhoi mwy o bwerau gorfodi i'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â thorri'r Ddeddf Amddiffyn Data 1998.

Bydd y Comisiynydd yn gallu gosod dirwy am yr achosion mwyaf difrifol o dorri'r Ddeddf Amddiffyn Data a bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol y p£er i gynyddu'r sancsiynau presennol ar gyfer cael gafael ar, neu ddatgelu data personol yn anghyfreithlon (fel y'u gosodir yn a.55 o'r Ddeddf Amddiffyn Data) hyd at ddedfryd o gaethiwed.

Am fwy o wybodaeth ar y newidiadau i'r ddeddfwriaeth gyflogi, ewch i'r adran materion cyflogaeth ar wefan BERR (Department for Business Enterprise and Regulatory Reform) www.berr.gov.uk.

Gemau Ysgolion y Deyrnas Unedig yn dod i Gymru yn 2009

Bydd Cymru nawr yn dechrau paratoi i groesawu Gemau Ysgolion y Deyrnas

Unedig yn 2009 a bydd ganddi nifer o bencampwyr yn amddiffyn eu teitlau yn dilyn gemau eleni pan enillodd nifer o athletwyr ifanc o Gymru fedalau mewn amrywiaeth eang o chwaraeon.

Bydd Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd yn croesawu'r cystadlaethau aml£gyfrwng ar y cyd dros gyfnod o dri diwrnod, a ddefnyddir i adlewyrchu'r Gemau Olympaidd a Gemau'r Gymanwlad, wedi i Bath a Bryste gynnal y digwyddiad ar y cyd eleni. Bydd yn gyfle hefyd i dalent ifanc newydd o bob rhan o Gymru i greu argraff ar y rhai fydd yn dethol timau Gemau'r Gymanwlad y flwyddyn ganlynol.

Felly ymlaen i Gymru y flwyddyn nesaf gyda Stadiwm newydd Leckwith Athletics yng Nghaerdydd, Pwll Cenedlaethol Cymru yn Abertawe a Phentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd yn darparu'r lleoliadau ar gyfer athletwyr o bob rhan o'r wlad i ymgynull ac edrych tuag at Gemau'r Gymanwlad yn 2010 yn ogystal â'r Gemau Olympaidd yn 2012.

Cynllun 'BingoLotto Buddy'

Yn rhifyn mis Mawrth o gylchlythyr Cymdeithas Chwaraeon Cymru cyhoeddodd y Gymdeithas y byddai'n derbyn arian trwy'r cynllun newydd 'BingoLotto' – gêm deledu fyw sy'n codi arian ar gyfer chwaraeon a'r sector gwirfoddol.

Treialwyd y cynllun ym mis Mawrth eleni, a gwerthwyd miloedd o docynnau trwy siopau bach ledled y wlad. Mae o leiaf 20% o bob tocyn a werthwyd yn y Deyrnas Unedig wedi'i ddefnyddio er budd chwaraeon. Mae cyfanswm yr arian a godwyd ar gyfer chwaraeon hyd yn hyn oddeutu £100,000 sydd wedi'i ddosrannu'n gyfartal i tua 100 o sefydliadau chwaraeon, gan gynnwys y WSA. Defnyddir yr arian a dderbyniwyd er budd cyrff llywodraethu.

Yn dilyn y cyfnod treialu'n gynharach yn y flwyddyn, bydd BingoLotto'n dychwelyd i'r sgrin fach yn gynnar y flwyddyn nesaf, mewn cydweithrediad â siop gadwyn fawr genedlaethol fydd yn gwneud hi'n haws i'r cyhoedd brynu cardiau BingoLotto ar gyfer yr ail gyfres, gan olygu bod mwy o arian yn cael ei godi ar gyfer chwaraeon.

O'n gynnar y flwyddyn nesaf felly, bydd clybiau Chwaraeon sy'n Fuddiolwyr BingoLotto'n elwa nid yn unig o'r enillion a ddaw o werthu tocynnau ar draws y wlad, ond gallant hefyd wneud mwy o arian (cymaint â 40 ceiniog ar bob tocyn) yn uniongyrchol ar gyfer eu hanghenion eu hunain wrth i aelodau a chlybiau ymuno â'r rhaglen 'BingoLotto Buddy'.

Trwy ddod yn 'BingoLotto Buddy' bydd aelodau clybiau'n gallu gwerthu cardiau BingoLotto'n uniongyrchol i'w ffrindiau, teuluoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol bob wythnos o'r flwyddyn a chadw 20% o'r arian a godir yn uniongyrchol ar gyfer eu clwb neu sefydliad.

Mae'r rhaglen BingoLotto Buddy'n ffordd unigryw o rymuso buddiolwyr BingoLotto yn y Deyrnas Unedig i godi arian sylweddol ar lefel clybiau (yn Sweden codwyd £900 miliwn ar lefel clybiau). Gellir datblygu ymgyrchoedd / apeliadau unigol ar gyfer codi arian (e.e. 'Prynwch docyn BingoLotto o'n clwb chwaraeon ni a'n helpu i godi arian i brynu fan newydd ar gyfer y tîm) fel bod gan bob clwb darged ar gyfer codi arian. Lle bynnag y bo'n bosib, bydd BingoLotto'n helpu i farchnata'r ymgyrchoedd hyn a'u hyrwyddo yn y wasg leol.

Bydd y rhaglen BingoLotto Buddy ar gyfer Cyfres 2 yn dechrau'n hwyrach eleni / yn gynnar y flwyddyn nesa, ond dylai clybiau ac aelodau gofrestru cyn gynted â phosib i gynorthwyo gyda'r cynllunio dros yr Haf er mwyn galluogi BingoLotto i ddarparu clybiau gyda phopeth sydd ei angen arnynt mewn pryd ar gyfer y gêm deledu gyntaf.

Os ydych chi neu aelodau o'ch clwb am wybod mwy am sut all eich clwb elwa o'r rhaglen BingoLotto Buddy, cysylltwch â Fiona Hortopp ar 07747 835 030 neu anfonwch e–bost at: fiona.hortopp@bingolotto.tv. Gallwch hefyd ymweld â www.bingolotto.tv.

Canllawiau Newydd ar gyfer Rheoli Gwirfoddolwyr

Mae Canolbwynt Gweithlu'r Deyrnas Unedig (UK Workforce Hub) wedi cyhoeddi set newydd o safonau ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr.

Dywed Canolbwynt y Gweithlu – sy'n cael ei redeg gan gyrff ymbarél gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) – y bydd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol newydd yn gwella'r ffordd y rheolir gwirfoddolwyr.

Mae'r ddogfen 151 tudalen yn rhestru pethau ddylai rheolwyr wneud i hyrwyddo gwirfoddoli, recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, a rheoli nhw'u hunain. Paratowyd y canllawiau gan y Canolbwynt ar ôl gofyn i wirfoddolwyr a rheolwyr am eu barn ar–lein.

I weld y ddogfen ewch i http://www.ukworkforcehub.org.uk/DisplayPage.asp?pageid=12457.

Gwefannau ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol

A fyddai'ch sefydliad chi'n elwa o gael gwefan? Oes gennych chi wefan yn barod, ond yn ystyried ei gwella? Os mai 'gallai' neu 'oes' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn yna mae'n bosib y byddai gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am wasanaethau newydd sbon sydd gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WVCA).

Ers y llynedd mae'r WCVA, mewn cydweithrediad ag un o brif gwmnïau Cymru, wedi datblygu pecyn datblygu gwefan o'r enw 'WebSpring' sydd wedi'i addasu'n benodol i ddarparu sefydliadau gwirfoddol gyda gwefannau cost effeithiol a phroffesiynol.

Mae gan wefannau WebSpring wedd a naws fodern a gallant ymgorffori unrhyw frand sy'n bodoli eisoes. Gellir creu safleoedd dwyieithog sy'n cynnwys yr adrannau canlynol: newyddion, swyddi/gwirfoddoli, hyfforddiant, digwyddiadau, chwilio, fforwm rhyngweithiol, cysylltau, cwestiynau a ofynnir yn aml, adnoddau, dogfennau a delweddau, cofrestru ar gyfer cylchlythyrau a map o'r safle. I weld enghraifft o wefan a sut mae WebSpring yn edrych ewch i www.webspring.org.uk.

Os hoffech chi wybod mwy am WebSpring cysylltwch â Mark Condron ar 029 2043 1700 neu e□bostiwch webspring@wcva.org.uk

Y Cyrsiau Hyfforddi Diweddaraf ar gyfer CLIC yng Ngogledd Cymru

Cyhoeddwyd rhaglen hyfforddi newydd ar gyfer Gogledd Cymru ac mae'r cyrsiau ar gyfer gweddill y flwyddyn wedi'u rhestru ar y dde.

Trefnwyd y cyrsiau trwy Pwynt Busnes yng Ngholeg Llandrillo, Bae Colwyn ac mae'r holl hyfforddiant am ddim i gyrff llywodraethu.

Am wybodaeth bellach ar y cyrsiau ac i ganfod mwy am y rhai a gynhelir yn Ne Cymru ewch i www.welshsports.org.uk/training.asp.

I archebu lle cysylltwch â Greta ar 0845 846 0020 neu e–bostiwch greta.gueresileach@welshsports.org.uk.

Tachwedd 2008	
Excel (Cyflwyniad)	13eg
Mae Delwedd yn Bwysig	14eg
Publisher	20ed
Rheoli Newid	20ed
Rheoli Amser	21ain
Excel (Uwch)	27ain

Rhagfyr 2008	
Word (Canolradd)	4dd
Y gair 'M'	10fed
Sgiliau Gwasanaeth Ffôn	12/19
Cyflwyniad i'r Gyfraith Gyflogaeth	12fed

Clwb Pêl–droed Amatur Cymunedol yn Derbyn Rhodd Cymorth o £4,832

Yn ddiweddar cynorthwyodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru 'Club Charity', cwmni ar–lein o Gwmbrân, a Banc 'Unity Trust' i gyflwyno'r siec Rhodd Cymorth gyntaf yng Nghymru i Glwb Pêl–droed Amatur Cwmbrân Celtic.

Bu'r WSA'n helpu i hyrwyddo gwaith Club Charity, sy'n darparu cymorth a gwybodaeth i Glybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CChAC) i gymryd mantais o'r gostyngiad treth a gynigir gan adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Ar hyn o bryd mae dros 160 o CChAC cofrestredig yng Nghymru ac mae'r nifer yn cynyddu bob mis.

Dechreuodd Cwmbrân Celtic weithio'n glòs gyda Club Charity (ym mis Rhagfyr 2007) i foderneiddio dulliau'r clwb o godi arian a gwneud y gorau o'u potensial fel CChAC. Mae'r canlyniad wedi cael effaith sylweddol ar gyllid y clwb.

Llwyddodd Club Charity i gael gostyngiad treth ychwanegol o £3,500 ar gyfer y clwb ac mae'r clwb hefyd wedi codi dros £12,000 mewn rhoddion ariannol ar□lein. Yn ychwanegol at hyn mae'r clwb yn awr wedi bancio bron £5,000 mewn Rhoddion Cymorth.

Cyflwynwyd y Rhodd Cymorth yn Sefydliad Chwaraeon Cymru (Gerddi Sophia) yng Nghaerdydd yn Awst 2008 a dwedodd rheolwr y clwb, Malcolm Jarrett yn ystod y digwyddiad:

"Rhaid imi gyfaddef fod gen i bwyllgor amheugar i ddelio gyda nhw ar y dechrau, ond cadwodd Club Charity ac Unity eu haddewidion ac mae'r clwb yn awr mewn sefyllfa ariannol llawer iachach!"

Esbonia David Wilkinson, Club Charity, sut mae'r system yn gweithio: "Mae'r Gweinidog Chwaraeon wedi annog clybiau chwaraeon i hyrwyddo chwaraeon yn y gymuned ac fel gwobr mae'n cynnig gostyngiad treth anferthol o 80% sydd wedi'i ariannu gan y llywodraeth leol heb unrhyw gost i'r awdurdod lleol na thalwyr trethi.

"Mae gan CChAC yr hawl i dderbyn 25% ychwanegol gan adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am bob £1 a gyfrannir gan dalwyr trethi'r Deyrnas Unedig.

Yn anffodus, mae clybiau'n aml yn colli allan ar yr incwm ychwanegol hwn oherwydd ei fod yn cymryd gormod o amser ac arian i brosesu'r gwaith papur ar gyfer rhoddion bach.

"Hefyd, nid yw nifer o'r CChAC yn sylweddoli y gellir adhawlio'r rhodd cymorth ar roddion ariannol sy'n mynd nôl i'r adeg pan wnaethon nhw gofrestru gyntaf."

Mae ymchwil diweddar gan Club Charity wedi dangos bod hyd yn oed y CChAC lleiaf filoedd o bunnau'n dlotach oherwydd nad ydyn nhw'n cymryd mantais o'r gostyngiadau treth sydd ar gael i CChAC.

Am fwy o wybodaeth am Club Charity, a sut allwn ni helpu clybiau i ddod yn CChAC a hawlio rhodd cymorth cysylltwch â David Wilkinson ar 01633 480194 neu ewch i www.clubcharity.co.uk

Proffil Prif Weithredwr

Enw: Steve Lloyd

CLIC: Pêl–fasged Cymru

Swydd: Prif Weithredwr

Hobïau/Diddordebau

Rwy'n hoff iawn o gadw'n heini ac rwyf wedi cwblhau 10 Ras Marathon Llundain, a chael fy nghuro'n aml gan gadwyn o beli loteri neu fanana fawr! Mae chwarae golff gyda fy nau fab yn bleser go iawn ac mae mynd ar wyliau i'r Unol Daleithiau gyda fy ngwraig ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn. Rwy'n mwynhau codi arian at ddystroffi'r cyhyrau ac mae gweld y buddiannau a ddaw o'r ymchwil yn rhoi llawer o foddhad. Mae darparu cadeiriau olwyn trydan ar gyfer rhai llai ffodus yn brofiad sy'n darostwng rhywun.

Llwybr Gyrfa

Dechreuais fel athro addysg gorfforol arbenigol mewn ysgolion uwchradd ac yna es ymlaen i weithio mewn ysgolion cynradd fel athro ymgynghorol. Gweithiais fel ymgynghorydd/arolygwr AALl yn Essex, Llundain, Gorllewin Morgannwg, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Rwyf hefyd wedi gweithio fel uwch ddarlithydd yn UWIC ac fel Arolygwr Estyn. Llywydd PAALPE yn 2002 ac EWI (Institute of Expert Witnesses) yn 2007. Fe'm penodwyd yn Brif Weithredwr Pêl–fasged Cymru yn Ebrill 2008.

Prif sialensiau sy'n wynebu'ch sefydliad:

Datblygu'r sefydliad presennol o fod yn sefydliad gwirfoddol, i fod yn fusnes chwaraeon modern, proffil uchel, sydd â rheolaeth gadarn, rhaglen ddomestig eang a phroffil rhyngwladol llwyddiannus. Mae yna nifer o bobl ymroddgar a gwybodus ym myd pêl–fasged yng Nghymru ac mae angen eu cefnogaeth nhw arnom ni wrth inni ddatblygu'n portffolio o weithgareddau. Mae potensial pêl–fasged yn aruthrol, does ond angen ichi edrych ar yr NBA a FIBA Ewrop i weld beth sy'n bosibl. Dangosodd yr archwiliad ysgolion 5/60 yn ddiweddar bod pêl–fasged yn un o'r chwaraeon mwyaf poblogaidd roedd plant am ei chwarae.

Pethau ry'ch chi'n mwynhau am eich swydd:

Y bobl a datblygu'r posibiliadau.

Pethau nad ydych chi'n mwynhau:

Dim byd mewn gwirionedd, rwyf wedi mwynhau popeth hyd yn hyn. Mae'r amser mae'n cymryd i wneud i bethau ddigwydd yn rhwystredig weithiau, ond mae hynny'n wir am y rhan fwya o swyddi.

Petaech yn cael un dymuniad, beth fyddai hwnnw?

Ar wahân i ennill y loteri (allech chi wneud i lawer o bethau ddigwydd yn gyflym iawn wedyn!) mae'n ddewis syml. Ar ôl teithio yn Affrica, y dymuniad mwyaf amlwg fyddai bod neb yn y byd yn newynog neu'n sychedig.

Pa dri gair sy'n eich disgrifio orau?

Yn fy meddwl i, tal, golygus a chyfoethog! Mewn realiti, gweithgar, dyfal a phositif mae'n debyg.

Person ifanc o'ch camp i gadw golwg arno/arni yn y dyfodol?

Yr un sydd heb ei ganfod eto si–r o fod. Mae angen inni edrych am y plant sydd â'r gallu naturiol gorau a'r gwydnwch meddyliol naturiol sydd ei angen i lwyddo; gall hyfforddiant gwych wneud y gweddill. Bydd Michael Phelps a Kobe Bryant wedi ysbrydoli nifer o athletwyr ifanc i geisio eu hefelychu, ac felly hefyd Nastia Lukin a Christine Ohuruogu.

Cyngor gorau a gawsoch erioed?

Yng nghyd–destun chwaraeon, "cyntaf yw cyntaf a dyw ail yn ddim byd" a "pan nad wyt ti'n ymarfer mae rhywun arall yn, a phan fyddi di'n cystadlu yn ei erbyn gei di gosfa". Mewn cyd–destun proffesiynol, "cerdda'r filltir ola' bob tro, mae bob amser yn talu'r ffordd yn y pen draw" . Mewn cyd–destun personol, "gwna'n si–r mai dy deulu yw calon dy fywyd, does dim byd arall yn bwysicach."

Llongyfarchiadau i Athletwyr Olympaidd Cymru

Hoffai Cymdeithas Chwaraeon Cymru ac aelodau ei bwrdd longyfarch holl aelodau Tîm Prydain Fawr, yn arbennig yr athletwyr o Gymru a wnaeth ymdrech mor wych yn ennill medalau yn Beijing.

Roedd yna fedalau Olympaidd mewn rhwyfo i Tom James, 24, o Goedpoeth Wrecsam, ac aelod ieuengaf sgwad rhwyfo Tîm Prydain, Tom Lucy, 20, a hyfforddodd yn Ysgol Fynwy.

Roedd y rhain yn ychwanegiad at y fedal aur a gafodd Nicole Cook o'r Wig ym Mro Morgannwg yn y ras ffordd ar gyfer menywod ar benwythnos cynta'r gemau.

Roedd y fedal aur a enillodd Geraint Thomas o Gaerdydd yn golygu mai gemau Beijing fu'r rhai mwyaf llwyddiannus i athletwyr Cymru ers 88 mlynedd.

Mae'r llwyddiant hwn yn ysbrydoliaeth go iawn ac mae camp yr athletwyr wedi ennyn diddordeb llawer o bobl wrth iddyn nhw edrych ymlaen yn awr at y Gemau yn 2012.

Caiff y clychlythyr yma ei gyhoeddi gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru, Sefydliad Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9SW. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu erthyglau ar gyfer cael eu cyhoeddi yn y dyfodol at y golygydd yn y cyfeiriad uchod neu at greta.gueresi–leach@welshsports.org.uk.

Er mai cyhoeddiad swyddogol Cymdeithas Chwaraeon Cymru yw hwn, nid yw'r syniadau a'r farn yn y cylchlythyr hwn o reidrwydd y rhai hynny a rannir gan Cym.ChC.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi hysbyseb neu noddi cylchlythyr Cym.ChC gysylltu â Greta Gueresi–Leach ar 0845 846 0020 neu drwy e–bost greta.gueresi–leach@welshsports.org.uk.

wsa:

serving welsh sport
gwasanaethu chwaraeon cymru